# MIGLDI MAGLDI

*Traddodiadol trefn. Owain Gethin Davies (geiriau Saesneg: Llew Tegid)*

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Alaw werin Gymreig yw Migldi Magldi, ac mae'r galw a'r ateb ynddi'n dynwared gof wrth ei waith.**

## THEMÂU/TESTUNAU

Gwaith/gof/canu gwerin

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau
Y Celfyddydau Mynegiannol

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

11fed



### Ffurf Lleisiol

Galw ac ateb

### Elfennau Cerddorol

Gwead a strwythur

### Nodweddion Cerddorol

Galwad harmoni deulais a strwythur stroffig

## Ymarferion Cynhesu

- Gwnewch yn siŵr fod digonedd o le ar gael. Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu bod pensil mawr yn sownd am eu pennau. Mae angen iddynt 'ddefnyddio'r pensil' i dynnu lluniau a siapiau o'u dewis ar y nenfwd.
- Dylai'r dysgwyr adael i'w dwy fraich hongian yn llipa wrth eu hochr a chadw'u pengliniau wedi plygu ychydig. Ar ôl cyfrif i bedwar, dylent godi'r naill fraich a'r llall i fyny'n raddol, yn syth allan i'r ochr ac anadlu i mewn. Ar ôl dal yr osgo hwn am bedwar curiad, dylent ostwng eu breichiau'n araf, gan hisian yr aer allan yn raddol, heb unrhyw orfodaeth.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am sain distaw a sain uchel, a symudiad corff i gyfateb â'r sain hwnnw. Rhowch gyfle i unigolion berfformio'u sain a gofyn i weddill y grŵp efelychu'r hyn y maent yn ei glywed a'i weld.
- Gofynnwch i'r dysgwyr geisio clapio/adrodd y rhythm nodweddiadol canlynol:




## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Archwiliwch ganeuon gwerin Gymreig fwy traddodiadol.
- A oes ganeuon eraill sy'n gysylltiedig â Gof yn y gwaith? e.e.. Pedoli Pedoli Pedoli Pedinc.
- Mae yna lawer o synau onomatopoeig yn y gân hon i ddynwared sain y Gof yn y gwaith.
- Ymchwiliwch i ganeuon eraill gyda synau onomatopoeig ynddynt megis: A Thousand Hairy Savages.

© CanSing Cymru 2022

**GRADING: HAWDD**

# MIGLDI MAGLDI

*Traddodiadol trefn. Owain Gethin Davies (geiriau Saesneg: Llew Tegid)*

Cân Sing

## Addysgu a Dysgu

1. Gwrandewch ar y recordiad o'r pennill cyntaf amryw o weithiau, a gofynnwch i'r dysgwyr nodi a chanolbwyntio ar yr ateb. Dylai'r dysgwyr allu sylwi bod traw'r trydydd ateb yn wahanol i bob ateb arall.
2. Chwaraewch recordiad o'r alwad neu ei chanu heb yr ateb a gofynnwch i'r dysgwyr ateb drwy glapio neu ddweud y geiriau.
3. Cenwch neu chwaraewch yr ateb cyntaf a gofyn i'r dysgwyr ei adleisio. Cofiwch roi'r nodyn cyntaf i'r dysgwyr (C).
4. Perfformiwch y ddwy frawddeg gyntaf a gofyn i'r dysgwyr ganu'r ateb.
5. Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r ateb hwn ac yn ei ganu'n hyderus, cenwch neu chwaraewch ateb y drydedd linell a gofyn i'r dysgwyr ei ganu'n ôl. Cofiwch roi nodyn cyntaf y dysgwyr iddynt (G).
6. Perfformiwch y ddwy frawddeg gyntaf a gofyn i'r dysgwyr ganu'r ateb.
7. Pan fydd yr holl ddysgwyr yn gallu canu alaw'r ateb yn hyderus, perfformiwch y pennill cyntaf a gofyn i'r dysgwyr ganu pob ateb.
8. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp – y naill i ganu Rhan 1 yr alwad (y rhan uchaf) a'r llall i ganu Rhan 2 yr alwad (y rhan isaf).
9. Dechreuwch gyda Rhan 1. Cenwch neu chwaraewch y rhan a gofyn i'r dysgwyr ei chanu'n ôl. Cofiwch roi nodyn cyntaf y dysgwyr iddynt (G).
10. Dilynwch yr un camau â Rhan 2 (nodyn cyntaf E). Ewch dros y ddwy ran amryw o weithiau i ennyn hyder y dysgwyr.
11. Rhowch y nodau cyntaf i'r naill grwˆp a'r llall a pherfformio'r ddwy ran gyda'i gilydd yn ddigyfeiliant. Arafwch y cyflymder er mwyn sicrhau cywirdeb.
12. Pan fydd y dysgwyr yn gallu canu eu rhan yn hyderus, gofynnwch iddynt gyfnewid rhannau. Dilynwch yr un camau addysgu ag o'r blaen.

## Sgiliau Cyfannol

- Canolbwyntiwch ar y rhythmau ailadroddus yn yr ateb, ac ar ynganu'n glir wrth ganu. Ceisiwch berfformio'r gân yn ddigyfeiliant.
- Mae gan y gân hon bum pennill. Darllenwch drwy eiriau'r penillion eraill, ac yna'u hymarfer gyda'r recordiad, gyda'r harmoni deulais yn yr alwad.
- Addysgwch yr alwad i'r holl ddysgwyr neu roi cyfle i unigolion ei pherfformio. Drwy berfformio'r ateb amryw o weithiau byddant yn ymgyfarwyddo'n naturiol ag alaw'r alwad.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HAWDD**

# MIGLDI MAGLDI

*Traddodiadol trefn. Owain Gethin Davies (geiriau Saesneg: Llew Tegid)*

Càn Sing

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*

*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Drwy ddefnyddio graddfa gyfan C Fwyaf (CDEFGABC), neu ran ohoni, gallai'r dysgwyr gyfansoddi neu fyrfyfyrio'u hateb eu hunain i'r galwadau drwy ddefnyddio yr un rhythm. Gellid ymestyn y gweithgaredd hwn drwy ofyn i'r dysgwyr gyfansoddi'u hateb eu hunain a chanddo rythm a geiriau gwahanol. Rhowch gyfle i unigolion berfformio o flaen gweddill y dosbarth ac i werthuso cyfansoddiad y naill a'r llall.

- Rhowch sgôr o'r gân i'r holl ddysgwyr ac offeryn traw. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp – y naill i chwarae Rhan 1 a'r llall i chwarae Rhan 2 yr alwad, ac i berfformio'r ateb yn unsain.

- Ymestynnwch y gweithgaredd drwy greu ensemble addas o'r gân i'w berfformio gyda'r trac sain, neu hebddo.

- Daeth y gân werin hon yn hynod boblogaidd pan gafodd ei chanu gan y grŵp gwerin Cymreig, Ar Lôg. Gwrandewch a rhowch werthusiad o'r recordiad hwn, a thrafod ei brif nodweddion.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Byrddau gwyn**

- Disgrifiwch strwythur y gân hon.
- Faint o guriadau sydd ym mhob bar? Faint o fariau sydd ym mhob galwad ac ateb?
- Pa alawon ateb sy'n esgyn (yn codi yn eu traw) a pha rai sy'n disgyn (yn gostwng yn eu traw)?

### Adborth

**Adnodd: Sylwadau yn unig**

Rhowch adborth penodol i grwpiau ar y sylw y maent yn ei roi i rythm. Efallai y bydd angen i chi arddangos y rhythmau hanner cwafer ar ddechrau'r ateb cyntaf ac ar ddechrau'r drydydd alwad.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Deialog dysgwr-i-ddysgwr**

Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd tro i fod yn athro wrth drafod y perfformiad ac i ofyn cwestiynau. Efallai y bydd angen i chi awgrymu rhai cwestiynau posibl, er enghraifft:

- Pa ran oedd anoddaf yn yr alwad? Rhan 1 neu Ran 2? Pam?
- Beth fyddwch chi'n hoffi ei ganu fwyaf – yr alwad neu'r ateb? Pam?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HAWDD**